

Ditectif Geiriau



Ditectif Geiriau Llyfr 2

© Testun: Bethan Clement a Non ap Emlyn, 2015.

© Delweddau: Canolfan Peniarth,
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, 2015.

Golygwyd gan Lowri Lloyd.


Dyluniwyd gan Gwenno Henley.
Dyluniwyd y clawr gan Rhiannon Sparks.

Cyhoeddwyd yn 2015 gan Ganolfan Peniarth.

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn datgan ei hawl moesol dan Ddeddf Hawlfraint,
Dyluniadau a Phatentau 1988 i gael ei hadnabod fel awdur a dylunydd y gwaith yn ôl eu trefn.

Cedwir pob hawl gan yr awduron unigol.

Ceir atgynhyrchu cynnwys y pecyn hwn at ddefnydd oddi mewn i ysgol y prynwr yn unig.



Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i rhaglen
gomisiynu adnoddau addysgu a dysgu Cymraeg a dwyieithog

Cyflwyniad Ditectif Geiriau

Un o nodau Ditectif Geiriau yw cyfarwyddo a chynorthwyo dysgwyr ac athrawon Cyfnod Allweddol 2 gyda chynnwys y Profion Darllen Cenedlaethol yn ogystal ag ategu gofynion ieithyddol y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh) diwygiedig a'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Er y bydd defnyddio'r llyfrau yn help i'r dysgwyr ymgyswrtio ag iaith y profion, e.e. 'tanlinellwch', dylid cofio nad adnodd ar gyfer gwersi Cymraeg a pharatoi ar gyfer y profion yn unig yw hwn. Dylid defnyddio Ditectif Geiriau fel adnodd ystafell ddosbarth i addysgu yn bennaf gan fanteisio ar gyfleoedd i ehangu geirfa a gwybodaeth am iaith y dysgwyr mewn ystod o gyd-destunau. Addysgu a mwynhau drwy gydol y flwyddyn yw un o brif nodau'r gyfres, nid ymarfer ar gyfer y profion ddechrau tymor yr haf.

Nid oes rhaid cyflwyno gweithgaredd cyfan ar yr un pryd i'r dysgwyr. Gellid defnyddio un testun dros gyfnod o amser, gan dynnu sylw at wahanol nodweddion yn y testun wrth baratoi ac yna, roi adborth wedi i'r dysgwyr gwblhau'r dasg.

Yn ogystal â helpu gyda sgiliau darllen y dysgwyr, bydd y gyfres hon yn cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu ymhellach eu sgiliau llafar, rhifedd a rhesymu.

Mae cwestiwn olaf pob gweithgaredd mewn bocs. Dyma'r cwestiwn trafod neu ysgrifennu estynedig sy'n rhoi cyfle i'r dysgwyr resymu ac mae'n cynnig cyfleoedd gwych i ddatblygu sgiliau ehangach y dysgwyr.

Mae rhai testunau wedi'u cynnwys heb deitl yn fwriadol am fod adnabod y teitl yn rhan o'r dasg. Mae hyn yn cael ei nodi'n glir yn y cynnwys gyfochr â themâu'r testunau dan sylw.

Mae'r gyfres yn cynnwys pedwar o lyfrau sydd wedi eu graddoli ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 2. Mae amrywiaeth o destunau gwahanol fel sbardunau cychwynnol i'r ymarferion, e.e. adroddiad papur newydd, portread, sgript.

Yn ogystal, datblygwyd adnoddau rhyngweithiol i gefnogi'r llyfrau. Gall unigolion neu grwpiau yn yr ysgol eu defnyddio ond gellid hefyd eu defnyddio yn y cartref er mwyn hybu dysgu annibynnol. Gellir cael mynediad i'r gweithgareddau ar <http://adnoddau.canolfanpeniarth.org/ditectif-geiriau/>.



Cynnwys

1.	Testun heb deitl am neges o Siberia	4
2.	Gwenyn mêl	6
3.	Testun heb deitl gan Siôn Williams	8
4.	Lliwiau'r enfys	10
5.	Meri	12
6.	Mr Pryce y postman	14
7.	Clybiau'r ysgol	16
8.	Crempogau	18
9.	Polisi Masnach Deg	20
10.	Trip i'r parc saffari	22
11.	Testun heb deitl am chwedl	24
12.	Tywydd rhyfedd	26
13.	Y ras	30
14.	Mynd i'r Mandir	36



Darllenwch y testun yma.

AnfonArbedGwaredu

At:Carrie Phillips

Pwnc:Helo o Siberia

Atodi ffeil

B I U T A B L M S Testun plaenGwirio dogfen

Dyddiad: 22 Ionawr

Helo Carrie. Sut wyt ti?
Mae Mam a fi'n cael amser da iawn yma yn Irkutsk efo teulu Dad. Mae hi'n oer iawn yma, tua -25°C ond mae hi'n heulog hefyd. Mae pawb yn mwynhau'r tywydd oer achos maen nhw'n gallu sgïo a sglefrio.
Dw i'n hoffi sgïo efo fy ffrindiau newydd ar y penwythnos ond y penwythnos diwetha aethon ni i wyl cerfio iâ. Roedd llawer o gerfluniau rhew, castell iâ a llithren rew yno. Yn yr wythnos mae'n rhaid mynd i'r ysgol. Mae llawer o eira ac mae hi'n rhewi ond mae'r ysgol yn agored – dim fel Cymru. Mae'r llyn wedi rhewi ond mae Mam yn gyrru arno fo i fynd â fi i'r ysgol!
Dw i'n edrych ymlaen at yr haf achos dw i eisïau nofio yn y llyn. Mae'r tywydd yn braf iawn yma yn yr haf, rhwng 20 a 25°C. Mae Irkutsk yn lle ardderchog i fyw ond dw i hefyd yn edrych ymlaen at ddod nôl i Gymru ym mis Medi.
Hwyl,
Boris

1. Beth rydyn ni'n galw'r math yma o destun?

Ticiwch un.

7

9

2. Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
Mae Mam yn gyrru car ar y llyn.		
Bydd yr ŵyl cerfio iâ ym mis Rhagfyr.		
Bydd Boris yn nofio yn y llyn yn yr haf.		
Dydy Boris ddim yn mynd i'r ysgol yn y gaeaf.		
Mae teulu tad Carrie yn byw yn Irkutsk.		
Dydy hi ddim yn heulog yn y gaeaf.		

3.

Pwy sydd wedi ysgrifennu'r e-bost?

4.

Ble bydd Boris yn byw erbyn diwedd mis Medi?

5.

Mae'r llyn wedi rhewi ond mae Mam yn gyrru arno fo i fynd â fi i'r ysgol!

Beth sydd ar ddiwedd y llinell yn y bocs yma?

Ticiwch **un**.

atalnod

☐

ebychnod

☐

gofynnod

☐

dyfynnod

☐


- Siaradwch am y pethau rydych chi'n eu hoffi a'r pethau dydych chi ddim yn eu hoffi am fyw yn Irkutsk. Cofiwch roi digon o resymau dros eich barn.
- Gwnewch restr o'r pethau sy'n debyg ac yn wahanol rhwng bywyd yng Nghymru a bywyd yn Siberia.
- P'un sydd orau gyda chi – byw yn Irkutsk neu fyw yng Nghymru? Rhowch resymau dros eich barn.



Darllenwch y testun sydd yn y bocs isod.

Gwenyn mêl

Trychfilod yw gwenyn. Du a melyn llachar neu oren yw eu lliwiau. Mae tair rhan i gorff y wenynen fêl ac mae'n mesur tua 12mm. Mae ganddi chwe choes a phum llygad!



Mae'r wenynen fêl yn gallu hedfan ac mae'n gallu dawnsio hefyd. Mae'n dawnsio i ddangos i wenyn eraill ble i ddod o hyd i fwyd. Bwyd y wenynen yw'r neithdar a'r paill sydd mewn blodau. Mae hi'n cario'r neithdar yn ôl i'r cwch i wneud mêl.

Yn aml, mae'n rhaid i wenynen hedfan 20 000km i gasglu digon o neithdar i wneud 500g o fêl.

Mae'r wenynen yn hoffi cwmni gwenyn eraill. Weithiau, mae mwy na 50 000 ohonynt yn byw gyda'i gilydd mewn un cwch gwenyn.

Mae'r wenynen fêl yn gallu pigo ond dim ond i'w hamddiffyn ei hun y bydd hi'n gwneud hynny. Ar ôl iddi bigo person, bydd hi'n marw.

1.

Beth yw teitl y testun?

2.

Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
1. Mae gwenyn yn byw mewn llong.		
2. Mae pum llygad gan y wenynen.		
3. Mae'r wenynen yn amddiffyn pobl drwy eu pigo.		
4. Mae tri chorff gan y wenynen.		
5. Mae'r wenynen yn byw ar ei phen ei hun.		



3.

Tynnwch linellau i gysylltu'r ffigurau â'r geiriau.

pum cant
pum deg mil
deuddeg
dau ddeg mil

20 000
500
50 000
12



4.

Beth sydd ar ddiwedd y llinell yn y bocs yma?

Mae ganddi chwe choes a phum llygad!

atalnod

☐

dyfynnod

☐

gofynnod

☐

ebychnod

☐

5.

Dewiswch a chopiwch y geiriau sy'n disgrifio lliw'r gwenyn.



6.

Beth mae'r wenynen fêl yn gallu ei wneud?

Ticiwch 3.

hedfan

☐

dawnsio

☐

nofio

☐

pigo

☐

lliwio

☐

gwneud neithdar

☐

Gwenynen fêl ydych chi. Rydych chi wedi clywed rhywun yn dweud, "Mae gwenyn mêl yn ddiog iawn". Sut rydych chi'n teimlo? Eglurwch pam. Beth rydych chi'n mynd i'w ddweud wrth y person yma?

Dw i'n hoffi bore Sadwrn yn fawr. Dw i'n codi'n gynnar – tua chwech o'r gloch – a dw i'n rhedeg i lawr y grisiau i wyllo cartwnau ar y teledu. Yna, ar ôl i Dad godi, dw i'n cael brecwast (tost brown a sudd ffrwythau) ac wedyn, mae Matt, fy mrawd, Dad a fi'n mynd i'r pwll nofio.

Mae Dad a Matt yn nofio yn y pwll nofio mawr ond dw i'n cael gwersi yn y pwll nofio bach – gyda'r plant eraill. Hoffwn i nofio yn y pwll mawr gyda Dad a Matt ond rhaid i fi ddysgu sut i nofio'n iawn i ddechrau.

Ar ôl bod yn y pwll, rydyn ni'n cael diod yn y caffi. Mae Dad yn cael diod boeth, mae Matt yn cael sudd ffrwythau a dw i'n cael pop fel arfer. Yna, rydyn ni'n mynd i'r cae chwarae achos mae Matt yn chwarae yn y tîm pêl-droed. Dw i'n gobeithio chwarae yn y tîm ryw ddiwrnod. Rhaid i fi ymarfer rhedeg a chicio fel fy mod i'n cael fy newis cyn bo hir.

Yna, rydyn ni'n cael brechdanau neu pizza amser cinio. Pizza ydy fy hoff fwyd i a dw i'n hoffi helpu Dad i baratoi pizzas ham, caws a phinafal. Mae Dad yn dweud eu bod nhw'n flasus iawn – a dw i'n cytuno!

Mae bore Sadwrn yn wych!



1. Pa un o'r rhain yw'r teitl gorau ar gyfer y testun?

Ticiwch un.

Dydd Gwener

☐

Dydd Sul

☐

Dydd Sadwrn

☐

Dydd Llun

☐

2. Dyma beth mae Siôn yn ei wneud. Rhowch y camau yn y drefn gywir. Mae'r un cyntaf wedi ei wneud i chi.

codi

mynd i'r pwll nofio

cael diod

gwyllo cartwnau

cael brecwast



3.

Dewiswch a chopïwch yr ymadrodd (grŵp o eiriau) sy'n cyfeirio at yr amser.



4.

Yn y caffi, pwy sy'n gofyn am y diodydd yma – Siôn, Matt neu Dad?

Ysgrifennwch yr enw cywir o dan y swigen.

Dw i eisiau lemonêd os gwelwch yn dda.

Ga i sudd afal os gwelwch yn dda?

Coffi os gwelwch yn dda.



5.

Dewiswch a chopïwch 3 o'r geiriau bwyd yn y testun.



6.

Gorffennwch y frawddeg: Un diwrnod, mae Siôn eisiau ...

Ticiwch **un**.

nofio fel Matt

☐

chwarae yn y tîm

☐

dysgu plant eraill i nofio

☐

gwneud pizza

☐


7.

Pa un o'r brawddegau yma sy'n disgrifio sut mae Siôn yn teimlo am fore Sadwrn?

Ticiwch **un**.

Mae e wrth ei fodd ar fore Sadwrn.

☐

Mae e'n casáu bore Sadwrn.

☐

Mae e'n meddwl bod bore Sadwrn yn ddiflas.

☐

Mae'n well ganddo fe fore Sul.

☐


Yn eich barn chi, pa fath o berson yw Siôn?

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Darllenwch y gerdd yma.

Lliwiau'r enfys

Mae lliwiau'r enfys yn fy mywyd i ...

Afal melys, mor fawr, mor flasus – COCH!

Dail mis Tachwedd yn garped rhyfedd – OREN!

Yr haul mor braf ar ddiwrnod o haf – MELYN!

Llygaid Sinsir, fy nghath lawn antur – GWYRDD!

Papur sgleiniog ar siocled godidog – GLAS!

Siorts i nofio a beic i'w reidio – INDIGO!

Blodau hardd yn llenwi'r ardd – FIOLED!

Non ap Emlyn

1.

Beth yw teitl y gerdd yma?

2.

Dewiswch a chopiwch y gair sy'n enwi un o'r tymhorau.

3.

Dewiswch a chopiwch y gair sy'n disgrifio'r tywydd.



4.

Beth yw enw'r gath yn y gerdd?



5.

Dewiswch a chopiwch y gair sy'n disgrifio'r papur glas.



6.

Cysylltwch y lliw â'r peth neu'r pethau sydd yn y rhestr ar y dde. Mae un wedi ei wneud i chi.

fioled

gwyrdd

coch

indigo

anifail anwes

rhywbeth i'w fwyta

beic

planhigion



7.

Mae diwedd rhai geiriau'n odli – maen nhw'n swnio'n debyg.

Ticiwch y 2 air ym mhob rhes sy'n odli.

melys ☐	mawr ☐	mor ☐	blasus ☐
yr ☐	haul ☐	braf ☐	haf ☐
nofio ☐	beic ☐	i'w ☐	reidio ☐
blodau ☐	hardd ☐	llenwi ☐	gardd ☐




Beth mae'r bardd yn ei hoffi, tybed?

Rhowch resymau dros eich atebion.

Beth am ysgrifennu cerdd am y lliwiau yn eich bywyd chi? Does dim rhaid cynnwys geiriau sy'n odli os nad ydych chi eisiau.

Darllenwch y testun sydd yn y bocs isod.



Meri

Dyma Meri'r ferlen fach felen.

Mae Meri yn ddeunaw oed yn y llun yma. Roedd hi wedi bod gyda fi am dair blynedd pan gafodd y llun ei dynnu. Roedd hi'n eithaf hen a dweud y gwir ond roeddwn i'n dwlu arni hi. Roeddwn i wrth fy modd yn ei marchogaeth hi. Ar y cyfan roedd hi'n dda iawn pan oedden ni'n mynd am dro. Fi oedd yn penderfynu ble roedden ni'n mynd ond hi oedd yn penderfynu pa mor gyflym roedden ni'n mynd!

Roeddwn i wedi bod yn cael gwersi marchogaeth bob wythnos am ddwy flynedd cyn i mi gael Meri ac yna, ar fy mhen-blwydd yn ddeg oed ces i hi. Dyna'r anrheg pen-blwydd orau rwyf wedi ei chael erioed. Roedd rhaid i fi ofalu amdani hi ond doedd dim ots gen i achos roeddwn i'n cael treulio mwy o amser gyda hi.

Erbyn hyn, mae Meri yn hen iawn ac rwyf i wedi tyfu'n fawr. Dw i ddim yn gallu ei marchogaeth hi bellach, ond rwy'n dal i ofalu amdani. Bydd Meri a finnau'n ffrindiau da am byth.

1.

Mae 2 air yn y llinell gyntaf yn odli. Ysgrifennwch nhw yma.

2.

Faint oedd oed Meri pan gafodd yr awdur hi?

3.

Dewiswch a chopiwch yr ymadrodd (grŵp o eiriau) sy'n dangos bod yr awdur yn hoff iawn o fynd ar gefn y ferlen.



4.

Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
1. Roedd yr awdur yn cael gwersi marchogaeth pan oedd hi'n naw oed.		
2. Roedd ceffyl gan yr awdur pan oedd hi'n wyth oed.		
3. Mae'r awdur yn dal i farchogaeth Meri.		
4. Roedd yr awdur wedi bod yn cael gwersi yn wythnosol cyn iddi gael Meri.		
5. Roedd Meri bob amser yn bihafio'n dda iawn.		




5.

Mae ebychnod ar ddiwedd un o'r brawddegau. Copïwch yr ebychnod yma.



Roedd yr awdur yn gofalu am Meri. Mewn grŵp, eglurwch sut dylech chi ofalu am ferlen. Beth am chwilio am fwy o wybodaeth ar y we?



MR PRYCE, Y POSTMAN

Faint o'r gloch ydych chi'n dechrau'r gwaith bob dydd?

Dw i'n codi am chwarter i bump bob bore ac yna, ar ôl brecwast, dw i'n gadael y tŷ am chwarter wedi pump er mwyn dechrau'r gwaith am hanner awr wedi pump.

Ydy hi'n anodd codi mor gynnar yn y bore?

Nac ydy, ddim o gwbl. Dw i'n gallu codi'n gynnar ac mae'n braf mynd i'r dref pan fydd neb arall yno.

Beth yn union ydych chi'n ei wneud?

Ar ôl cyrraedd swyddfa'r post, dw i'n sortio'r llythyrau a'r parseli. Yna, tua hanner awr wedi saith, dw i'n llwytho'r fan. Wedyn, dw i'n cael rhywbeth bach i'w yfed a dw i'n sgwrsio am ychydig gyda'r postmyn eraill. Mae'n braf iawn sgwrsio gyda nhw a rhannu jôc neu ddwy cyn dechrau dosbarthu'r post o dŷ i dŷ tua wyth o'r gloch.

Faint o'r gloch ydych chi'n gorffen eich gwaith bob dydd?

Dw i i fod i orffen am hanner awr wedi un, ond weithiau rhaid i fi weithio'n hwyrach.

Ydych chi'n gweithio bob dydd o'r wythnos?

Nac ydw, dw i ddim yn gweithio ar ddydd Sul.

Beth sy'n dda am fod yn bostman?

Dw i'n mwynhau cwrdd â phobl a dw i'n mwynhau gweithio'r tu allan. Mae rhai postmyn yn gyrru faniau ond dw i'n cerdded o dŷ i dŷ yn y dref, ac felly dw i'n cadw'n heini hefyd.

Beth sy'n anodd am fod yn bostman?

Mae rhai o fy ffrindiau i'n dweud bod cŵn mawr wedi rhedeg i fyny atyn nhw yn cyfarth yn gas, ond dw i erioed wedi cael y broblem yma.

Beth sy'n creu problemau i bostman?

Does dim llawer o broblemau. Weithiau, pan fydda i'n sortio'r llythyrau mae'n anodd deall y cyfeiriad ar amlen achos bod yr ysgrifen yn ofnadwy ac weithiau does dim cod post ar yr amlen chwaith. Ond dydy'r rhain ddim yn broblemau mawr.



1. Pa un o'r brawddegau yma sy'n gywir?

Ticiwch **un**.

Mae Mr Pryce yn hapus i godi'n gynnar yn y bore.

☐

Nid yw Mr Pryce yn hapus i godi'n gynnar yn y bore.

☐



2.

Mae Mr Pryce yn bostman. Beth yn union yw ei waith?

a. _____

b. _____

c. _____



3.

Sawl diwrnod yr wythnos mae Mr Pryce yn gweithio?



4.

Ysgrifennwch yr amserau yma yn y drefn gywir:

Yr amserau
chwarter wedi pump y bore
wyth o'r gloch y bore
hanner awr wedi un y prynhawn
hanner awr wedi saith y bore
chwarter i bump y bore
hanner awr wedi pump y bore

Y drefn gywir



5.

Beth sy'n gallu creu problemau wrth sortio'r llythyrau?

a. _____

b. _____



Ydych chi'n meddwl bod Mr Pryce yn hoffi ei waith?
Pam rydych chi'n meddwl hynny?

Darllenwch y testun yn y bocsys hyn.



Ysgol Llandre Clwb Garddio



Ydych chi'n mwynhau tyfu blodau a llysiau?

Ydych chi'n mwynhau gweithio yn yr ardd?

Dyma'r clwb i chi.

Bob amser cinio a bob nos Fawrth am
3.30 yn yr ardd.



Croeso cynnes i fechgyn a merched
o bob blwyddyn.

Ysgol Gynradd y Llan Clwb Drama

Am un o'r gloch bob dydd Gwener yn B6

Bob nos Fercher yn y neuadd

Os ydych chi'n hoffi digon o hwyl a sbri

Y clwb drama yw'r clwb i chi.

Ysgol Gynradd y Pant Clwb Tennis

Rydyn ni'n ymarfer bob nos Fawrth a nos Iau.

Mae gennym ddau dîm. Mae wyth chwaraewr ym
mhob tîm ac rydym yn ennill llawer iawn o gemau.

Rydym yn chwarae senglau a dyblau drwy
gydol y flwyddyn.

Mae tîm Blwyddyn 5 a 6 wedi ennill pob
gêm eleni.

Mae gêm nesaf Blwyddyn 3 a 4 ddydd
Sadwrn Mehefin 6 yn Ysgol y Cwm am
10.30 ac mae Blwyddyn 5 a 6 yn chwarae
am 12.30.

Dewch i weld y gemau.





1.

Beth yw'r testunau hyn?

Ticiwch un.

cardiau post

☐

hysbysebion

☐

tocynnau

☐

dyddiaduron

☐

2.

Pa glwb sy'n cwrdd bob dydd?



3.

Pa glwb sy'n cwrdd ar ôl yr ysgol yn unig?



4.

Ysgrifennwch yr amserau hyn mewn geiriau:

1. 1.00 _____

2. 3.30 _____

3. 10.30 _____

4. 12.30 _____



5.

Llenwch y bylchau yn y brawddegau.




1. Mae'r **clwb garddio** yn cwrdd bob nos _____.2. Mae aelodau'r **clwb tennis** yn chwarae dydd _____ nesaf.3. Mae plant o bob oed yn cael mynd i'r **clwb** _____.4. Mae'r **clwb drama'n** ymarfer nos _____.

P'un o'r clybiau yma yw'r gorau ar gyfer rhywun sydd eisiau cadw'n heini?

Cofiwch roi digon o resymau da i gefnogi eich barn.

Darllenwch y testun yn y bocs isod.

Crempogau (Digon i 4 person)



- 200 gram o flawd
- 400ml o laeth
- 2 wy

1. Rhowch yr wy a'r llaeth yn y bowlen ganolig a chwipiwch nhw â'r chwisg.
2. Rhowch y blawd yn y bowlen fawr.
3. Ychwanegwch y llaeth a'r wy. Chwipiwch bopeth yn dda.
4. Rhowch badell ffrio ar yr hob – ddim yn rhy boeth.
5. Rhowch 2 lwyaid fawr o'r gymysgedd yn y badell ffrio. Coginiwch nes y bydd y gwaelod yn frown golau.
6. Yna, yn ofalus iawn, trowch y grempog â'r sbatwla.
7. Pan fydd yr ochr arall yn frown golau, rhowch y grempog ar blât a'i bwyta.

Blasus gyda siwgr a sudd lemwn.

1. Beth yw'r testun hwn?

Ticiwch **un**.

stori ☐

cerdyn post ☐

rysâit ☐

llythyr ☐

2. Ysgrifennwch yr is-deitlau hyn yn y bocsys cywir uchod.

Cynhwysion

Dull

Offer



3.

Sut mae'r offer hyn yn cael eu defnyddio?

Tynnwch 3 llinell i gysylltu'r geiriau sy'n perthyn i'w gilydd.

y chwisg

y sbatwla

y badell ffrio

troi'r gremnog

coginio'r gremnog

chwipio'r wyau a'r llaeth



4.

Rhowch y camau hyn yn y drefn gywir o 1 i 5.

Mae un wedi ei wneud yn barod i chi.

troi'r gremnog

☐

bwyta'r gremnog

☐

chwipio'r llaeth a'r wy

☐

cymysgu'r llaeth, yr wy a'r blawd yn dda

☐

coginio'r gremnog

☐

5.

Mae'r testun yn dweud y gallwch chi roi _____ a _____ ar ben crempog.

Ticiwch 2.

blawd

☐

sudd lemwn

☐

llaeth

☐

siwgr

☐

6.

Mae'r testun yn dangos sut i wneud digon o gremnogau i 4 person.

Faint o gynhwysion fydddech chi'n eu defnyddio ar gyfer ...?

2 berson:

_____ gram o flawd

_____ ml o laeth

_____ wy

8 person:

_____ gram o flawd

_____ ml o laeth

_____ wy



Rhestrwch beth arall y gallech chi ei roi ar ben crempog.
Dewiswch y pethau iachaf i'w rhoi ar ben crempog.
Eglurwch pam mae'r pethau hyn yn iach.

POLISI MASNACH DEG YSGOL WAUNDLOS

- **BYDD YR YSGOL BOB AMSER YN CEFNOGI MASNACH DEG.**
- **BYDDWN YN DEFNYDDIO TE, COFFI A SIWGR MASNACH DEG YN YSTAFELL Y STAFF.**
- **BYDDWN YN DEFNYDDIO CYNHWYSION MASNACH DEG MEWN GWEITHGAREDDAU COGINIO.**
- **BYDDWN YN GWERTHU NWWYDDAU MASNACH DEG YN SIOP YR YSGOL AC YN Y FFAIR NADOLIG.**
- **BYDD YR YSGOL YN PRYNU ADNODDAU MASNACH DEG BOB CYFLE POSIBL, E.E. OFFER CHWARAEON FEL PELI.**
- **BYDDWN YN GWNEUD YN SIWR BOD RHINIENI'N GALLU PRYNU GWISG YSGOL MASNACH DEG.**
- **BYDDWN YN GWNEUD YN SIWR BOD PLANT YR YSGOL YN DYSGU AM FASNACH DEG.**
- **BYDDWN YN TREFNU GWEITHGAREDD ARBENNIG YN YSTOD PYTHEFNOS MASNACH DEG.**



1. Beth rydyn ni'n galw'r math yma o destun?

Ticiwch **un**.

- stori ☐
- poster ☐
- cerdd ☐
- llythyr ☐



2. Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
Mae'r staff yn mynd i ddefnyddio coffi Masnach Deg.		
Mae'n rhaid i'r rhieni brynu gwisg ysgol Masnach Deg.		
Bydd gwersi am Fasnach Deg yn yr ysgol.		
Maen nhw'n defnyddio peli Masnach Deg yn Ysgol Waundlos.		
Maen nhw wedi bod yn gwerthu nwyddau Masnach Deg yn y Ffair Nadolig.		



3. Beth yw ystyr 'pythefnos'?

Ticiwch **un**.

- 1 wythnos ☐
- 2 wythnos ☐
- 3 wythnos ☐
- 4 wythnos ☐



Eglurwch beth mae eich ysgol chi'n ei wneud i gefnogi Masnach Deg. Beth arall allech chi ei wneud i helpu?

Darllenwch y testun yn y bocs isod.

Trip i'r parc saffari

Roedd Huw yn cael ei ben-blwydd ac felly aeth e, Catrin, ei chwaer, a'u mam i'r parc saffari. Roedd Huw yn hapus iawn achos mae e'n hoffi anifeiliaid yn fawr iawn.

Gyrrodd Mam y car yn araf drwy'r caeau lle roedd y jiraffod ac yna drwy'r coed lle roedd y mwncïod. Yna, aethon nhw i mewn i ardal y llewod. Roedd Catrin yn poeni ychydig achos roedd hi'n ofni y byddai'r llewod yn dod i fyny at y car.

Pan oedden nhw yng nghanol y llewod, stopiodd y car yn sydyn. Ceisiodd Mam ddechrau'r injan, ond doedd dim byd yn gweithio. Roedd y car yn gwrthod symud.

"O, na!" gwaeddodd Catrin. "Mae'r llewod yn mynd i'n bwyta ni! Rhaid i ni agor y ffenest i alw'r warden ar unwaith."

"Na. Beth am adael y car a rhedeg yn gyflym tua'r allanfa?" awgrymodd Huw. "Mae'r tri ohonon ni'n gallu rhedeg yn gyflym. Fydd y llewod ddim yn gallu'n dal ni."

"Na, mae'n rhy beryglus," dywedodd Mam. "Beth am ganu'r corn? Bydd y warden yn siwr o glywed."

A dyna beth wnaeth Mam.

O fewn munud, roedd jîp brown y warden wrth eu hochr ac o fewn pum munud roedden nhw yn ôl yn y maes parcio yn ddiogel.

"Wel, dyna un pen-blwydd wna i byth ei anghofio," dywedodd Huw. "lawn, beth ydyn ni'n mynd i'w wneud nesa?"



1. I ble aeth y teulu?

Ticiwch **un**.

i barti pen-blwydd

☐

i'r sw

☐

i'r parc chwarae

☐

i barc saffari

☐

2. Pam aethon nhw?

Ticiwch **un**.

Roedd Catrin yn hoffi anifeiliaid.

☐

Roedd Mam yn hoffi anifeiliaid.

☐

Roedd Huw yn cael ei ben-blwydd.

☐

Roedd Mam yn cael ei phen-blwydd.

☐



3. Sut mae Huw a Catrin yn perthyn?

Ticiwch **un**.

brawd a chwaer ☐

tad a merch ☐

mam a mab ☐



4. Dewiswch a chopiwch y geiriau sy'n disgrifio sut mae Huw yn teimlo.



5. Dewiswch a chopiwch y geiriau sy'n disgrifio sut mae Catrin yn teimlo.



6. Rhowch y digwyddiadau hyn yn y drefn gywir o 1 i 5.

Mae un wedi ei wneud yn barod i chi.

Aeth y teulu i weld y llewod. ☐

Aeth y teulu i weld y jiraffod. ☐

Aeth y teulu i'r parc saffari. ☐ 1

Torrodd y car i lawr. ☐

Daeth y warden i'w hachub nhw. ☐



7. Pwy oedd eisiau gwneud beth? Tynnwch 3 llinell i ddangos beth roedd pawb eisiau ei wneud:

Mam

Catrin

Huw

galw'r warden

canu'r corn

gadael y car




Dychmygwch:

Rydych chi'n cerdded yn y mynyddoedd gyda ffrind ac rydych chi'n cael amser da iawn. Yn sydyn, mae'ch ffrind yn syrthio ac mae'n brifo ei goes/ei choes yn ofnadwy. Mae'n methu codi. Mae'n methu symud.

Beth rydych chi'n ei wneud?

Trafodwch hyn.

Darllenwch y testun yn y bocs isod.



Roedd y llew mawr yn cysgu yn y goedwig. Gwelodd y llygoden fach ef. Cafodd y llygoden ofn ofnadwy a dechreuodd redeg fel mellten heibio i'r llew. Ond, fel roedd hi'n mynd heibio i'w drwyn, agorodd y llew ei lygaid!

Daliodd y llygoden yn dynn yn ei bawen anferth.

"Mae chwant bwyd arna i," meddai'r llew. "Rwy'n mynd i dy fwyta di."

"Na, na," gwichiodd y llygoden yn nerfus. "Gad fi'n rhydd a rhyw ddiwrnod fe helpa i ti."

"Beth?" meddai'r llew gan chwerthin. "Sut rwy'ti'n mynd i fy helpu i? Rwy'ti'n rhy fach i helpu llew mawr, cryf fel fi."

Dechreuodd y llew chwerthin a chwerthin. Roedd e'n chwerthin gymaint nes bod dagrau'n rhedeg i lawr ei fochau. Wrth iddo fynd i sychu ei lygaid, llaciodd ei afael ar y llygoden.

Manteisiodd y llygoden a rhedodd i ffwrdd nerth ei thraed. O'r diwedd, roedd hi'n ddiogel.

Mewn wythnos, roedd y llew dewr yn mynd am dro drwy'r goedwig. Roedd e'n chwilio am fwyd. Yn sydyn, disgynnodd rhwyd arno. Roedd y llew yn sownd yn y trap. Dechreuodd e ruo nerth ei ben. Roedd e'n rhuo ac yn rhuo.

Clywodd y llygoden fach ef. Roedd hi'n adnabod ei lais – llais y llew oedd wedi ei dal yn ei bawen. Aeth i chwilio amdano ar unwaith a daeth o hyd iddo yn sownd yn y rhwyd. Doedd e ddim yn gallu symud modfedd.

Dechreuodd y llygoden gnoi'r rhaff yn eiddgar â'i dannedd miniog. Cyn bo hir roedd hi wedi torri un o raffau'r rhwyd, ac yna un arall ac un arall. Mewn ychydig amser, roedd y llew yn rhydd.

"Roeddet ti'n chwerthin pan ddywedais i byddwn i'n dy helpu di un dydd," meddai'r llygoden, "Ond fi oedd yn iawn. Gall hyd yn oed llygoden helpu llew."

1.

Rhowch deitl i'r testun.

2.

Roedd gan y llygoden ddannedd miniog. Beth yw ystyr y gair 'miniog'?

Ticiwch **un**.

mawr ☐

siarp ☐

hir ☐

main ☐

3.

Ystyr dau ymadrodd yn y darn yw 'yn gyflym iawn'. Beth yw'r ymadroddion?
Ticiwch 2.

nerth ei thraed ☐

fel mellten ☐

nerth ei ben ☐

yn eiddgar ☐

4.

Dewiswch a chopiwch 3 ansoddair (geiriau disgrifio) sy'n dweud wrthym sut anifail yw'r llew.

5.

Darllenwch y frawddeg yma eto.

Daliodd y llygoden yn dynn yn ei bawen anferth.

Beth yw ystyr y gair 'anferth'? Ticiwch un.

bach iawn ☐

mawr iawn ☐

eithaf bach ☐

eithaf mawr ☐

6.

Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 6.

Mae un wedi ei wneud yn barod i chi.

y llew yn cael ei ddal mewn trap ☐

y llygoden fach yn dianc ☐

y llew yn cysgu yn y goedwig ☐ 1

y llygoden yn cnoi'r rhaff ☐

y llew yn chwerthin ☐

y llew yn rhuo ☐



Yn eich grŵp, trafodwch pa wersi rydym yn gallu eu dysgu o'r stori yma. Ydych chi'n gallu meddwl am enghreifftiau eraill lle mae'r bach wedi helpu'r mawr?

Tywydd rhyfedd

Mae'r tywydd yn gallu bod yn rhyfedd.

Ydych chi wedi clywed rhywun yn dweud, "Mae hi'n bwrw hen wragedd a ffyn," neu "Mae hi'n bwrw cylllyll a ffyrc," er enghraifft? Dydy'r bobl yma ddim wedi gweld gwragedd a ffyn na chylllyll a ffyrc yn syrthio o'r awyr, wrth gwrs, ond mae'r brawddegau yma'n ffordd dda iawn o ddisgrifio glaw trwm iawn.

Ond mae rhai pobl wedi gweld pethau rhyfedd iawn yn syrthio o'r awyr – yn union fel glaw:

Ym mis Awst 1894, roedd hi'n bwrw sglefrod môr – neu bysgod jeli – dros ddinas Caerfaddon (Bath), yn Lloegr.

Ym mis Hydref 1947, roedd hi'n bwrw pysgod yn Louisiana, Gogledd America.

Ym mis Mehefin 2005, roedd hi'n bwrw brogaod yn Serbia, Ewrop.

Ym mis Ebrill 2007, roedd hi'n bwrw corynnod neu bryfed cop dros ran o'r Ariannin, De America.


Ym mis Gorffennaf 2007, roedd hi'n bwrw mwydod neu bryfed genwair dros Louisiana, Gogledd America.

Ym mis Chwefror 2010, roedd hi'n bwrw pysgod dros ran o Ogledd Awstralia.

Pam mae anifeiliaid yn syrthio o'r awyr – fel glaw – weithiau?

Does neb yn siwr iawn ond efallai bod gwyntoedd cryf yn codi'r anifeiliaid yma o'r ddaear ac yn eu cario nhw i rywle arall. Yna, mae'r anifeiliaid yn cael eu gollwng o'r awyr – fel glaw.

Ydy, mae'r tywydd yn gallu bod yn rhyfedd weithiau.





1. Pa fath o dywydd yw hi os yw hi'n bwrw hen wragedd a ffyn?

Ticiwch **un**.

Mae hi'n bwrw glaw mân. ☐

Mae hi'n bwrw glaw trwm. ☐

Mae hi'n wyntog iawn. ☐

Mae hi'n niwlog iawn. ☐



2. Darllenwch y testun yma.

Ydych chi wedi gweld anifeiliaid yn syrthio o'r awyr

Atalnoddwch y testun yma'n gywir.



3. Darllenwch y prif destun eto ac yna ticiwch **Cywir** neu **Anghywir**.

	Cywir	Anghywir
1. Mae pobl wedi gweld hen wragedd yn syrthio o'r awyr yng Nghymru.		
2. Mae pobl wedi gweld pysgod yn syrthio o'r awyr yng Ngogledd America.		
3. Mae pobl wedi gweld corynnod neu bryfed cop yn syrthio o'r awyr yn Ewrop.		
4. Mae pobl wedi gweld pysgod yn syrthio o'r awyr dros Dde Awstralia.		





4.

Mae'r map yn dangos y gwledydd sy'n cael eu henwi yn y testun.

Ysgrifennwch beth syrthiodd o'r awyr yn y gwledydd yma.



5.

Gosodwch y dyddiadau yma yn y drefn gywir gyda'r dyddiad cynharaf yn gyntaf.

Gorffennaf 2007

Mehefin 2005


Ebrill 2007

Chwefror 2010



Edrychwch ar fwletin tywydd ar y we heb y sain.


Dywedwch sut bydd y tywydd.



Darllenwch y stori yma sydd wedi ei rhannu'n bum rhan.

Y ras

Rhan 1



1. Beth yw'r testun uchod?

Ticiwch **un**.

llythyr ☐

poster ☐

cerdd ☐

e-bost ☐

2. Am beth mae'r testun yn sôn?

Ticiwch **un**.

ras arbennig ☐

cloc arbennig ☐

achosion da arbennig ☐

arian arbennig ☐

3. Mae'r testun yn sôn am amser. Beth yw'r amser hwnnw?

4. Ticiwch y frawddeg gywir.

Ticiwch **un**.

• Rhaid i bawb fydd yn rhedeg wisgo dillad rhedeg. ☐

• Bydd y rhedwyr yn cael dewis beth maen nhw eisiau ei wisgo. ☐

Rhan 2

Roedd mam Sam yn mynd i redeg yn y ras.

"Dw i eisiau rhedeg yn y ras gyda ti," dywedodd Sam ar ôl brecwast un bore, pan welodd o hi yn ei dillad chwaraeon yn barod i fynd allan i ymarfer rhedeg.

"Ond, Sam, dim ond wyth oed wyt ti. Mae 5 cilometr yn rhy bell i ti," atebodd ei fam, "a dwyt ti ddim yn ddigon heini."

"Rhy bell? Ddim yn ddigon heini? Os wyt ti'n gallu rhedeg 5 cilometr, dw i hefyd," oedd ateb Sam. "Ga i ddod i ymarfer gyda ti 'te?"

"Os wyt ti eisiau," atebodd ei fam. "Dos i wisgo dy ddillad chwaraeon a dy esgidiau rhedeg – ond paid â bod yn hir achos dw i'n barod i fynd," ac i fwrdd â Sam i nôl ei ddillad chwaraeon, yn wên o glust i glust.

5.

Faint yw oed Sam?

Ticiwch **un**.

saith ☐

wyth ☐

naw ☐

deg ☐

6.

Beth roedd mam Sam yn mynd i'w wneud?

Ticiwch **un**.

bwyta brecwast ☐

newid ei dillad ☐

newid ei hesgidiau ☐

rhedeg ☐

7.

Dewiswch a chopiwch unrhyw gwestiwn yn y testun.



8. Pwy feddylodd beth? Ysgrifennwch yr enw o dan y swigen.

Dw i'n gallu rhedeg
cystal â ti.

Rhaid i ti fod yn fwy
heini i redeg yn y ras.



9. Dewiswch a chopiwch ymadrodd yn y paragraff olaf sy'n dangos sut roedd Sam yn teimlo.

Rhan 3

Dechreuodd y ddau redeg o gwmpas y parc ond roedd Sam wedi blino ar ôl mynd hanner ffordd, felly penderfynodd fynd i'r parc chwarae lle roedd siglenni, llithrennau, rhaffau dringo, trampolîn a thywod. Roedd ei ffrindiau yno'n barod yn chwarae'n hapus.

"Dw i'n mynd i redeg yn y ras 5 cilometr ym mis Awst," dywedodd Sam wrthynt.

"Dim gobaith!" dywedodd Ben.

"Ti? Dwyt ti ddim yn gallu rhedeg yn ddigon cyflym," meddai Dafydd.

Dechreuon nhw chwerthin am ei ben.

O'r parc, roedd Sam yn gallu gweld ei fam yn rhedeg o gwmpas y parc – rownd a rownd ... rownd a rownd – dair gwaith. Oedd, roedd hi'n heini iawn – ac roedd o'n gwybod rŵan fod rhaid iddo fo ddechrau cadw'n heini os oedd o'n mynd i fedru rhedeg.

Daeth ei fam i'r parc chwarae.

"Dw i wedi penderfynu," dywedodd Sam. "Dw i'n mynd i ymarfer gyda ti bob bore Llun, Mercher a Gwener."

"O, syniad dal!" atebodd ei fam.

10.

Tynnwch linell i ddangos beth roedd pawb yn ei wneud:

Sam

mam Sam

ffrindiau Sam

rhedeg o gwmpas y parc sawl gwaith

chwarae yn y parc

rhedeg hanner ffordd o gwmpas y parc

11.

Nid yw'r disgrifiad yma o'r parc yn hollol gywir. Rhowch linell drwy'r eitem ychwanegol.

Ym mharc chwarae'r plant, roedd siglenni, llithrennau, rhaffau dringo, trampolîn, castell bownsio a thywod.

12.

Pwy ydy Ben?

13.

Sawl gwaith bob wythnos roedd Sam a'i fam yn mynd i ymarfer dros yr haf? Ticiwch **un**.

unwaith

☐

dwywaith

☐

tair gwaith

☐

pedair gwaith

☐


Rhan 4

“Wyt ti eisiau dod i aros yn fy nhŷ i heno?” gofynnodd Dafydd i Sam un dydd Sul. “Mae Ben yn dod ac rydyn ni’n mynd i gael pizza a sglodion i swper.”

Meddylodd Sam am y gwahoddiad. Aros yn nhŷ Dafydd? Cyffrous ... ond bydden nhw’n hwyr iawn yn mynd i’r gwely. A beth am sglodion a pizza i swper? Blasus iawn ... ond roedd rhaid bwyta’n iach er mwyn paratoi at y ras.

“Dim diolch,” atebodd Sam. “Rhaid i mi godi’n gynnar iawn bore yfory.”

Y bore wedyn – fel pob bore Llun, Mercher a Gwener, aeth Sam a’i fam i redeg o gwmpas y parc. Roedd o wedi dechrau rhedeg 100 metr, rai wythnosau’n ôl ... yna 500 metr ... yna 1000 metr ... yna 1,500 metr, ond erbyn hyn, roedd o’n gallu rhedeg 4.5 cilometr.

14.

Pam nad oedd Sam eisiau mynd i aros gyda’i ffrindiau?

Nodwch **2** reswm.

a. _____

b. _____

15.

Sawl metr yw 4.5 cilometr?

Ticiwch **un**.

pedwar pwynt pump metr ☐

pedwar deg pum metr ☐

pedwar cant pum deg metr ☐

pedair mil pum can metr ☐

Rhan 5

Erbyn Awst 28^{ain}, diwrnod y ras, roedd Sam yn barod. Aeth o a'i fam i'r parc gyda'i gilydd. Safon nhw gyda'r rhedwyr eraill wrth y llinell gychwyn a phan glywon nhw'r chwiban, i ffwrdd â nhw.

Roedd y ras yn ddigon hawdd gan fod y ddau wedi paratoi mor dda ac roedd Sam wrth ei fodd yn rhedeg gyda'r oedolion. Fo oedd yr unig blentyn yn y ras.

Ar ôl ugain munud, roedd Sam yn gallu gweld y llinell derfyn. Roedd o'n teimlo'n gyffrous erbyn hyn – dim ond rhai camau i fynd ... rhai camau eraill ... ymlaen ... ymlaen ... a dechreuodd redeg yn gynt ... ac yn gynt ... ac yn gynt.

"Hwrê!", gallai glywed y dorf yn gweiddi wrth iddo groesi'r llinell. Edrychodd o'i gwmpas i siarad â'i fam, ond doedd hi ddim i'w gweld yn unman. Yna, yn sydyn, gwelodd hi'n croesi'r llinell derfyn. Bobl bach, roedd o wedi gorffen y ras o'i blaen hi!

Roedd o'n teimlo'n falch iawn.

Meddylodd eto am eiriau ei fam rai wythnosau yn gynt, "Rhy hir!" "Ddim yn ddigon heini!" Hy!

16. Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir**.

	Cywir	Anghywir
1. Dilynodd Sam ei fam i'r parc.		
2. Nhw oedd yr unig ddau yn sefyll wrth y llinell gychwyn.		
3. Roedd Sam yn teimlo'n hapus iawn yn rhedeg yn y ras.		
4. Roedd llawer o blant eraill yn rhedeg yn y ras.		
5. Curodd Sam ei fam.		

17. Dewiswch a chopiwch ymadrodd sy'n dangos sut roedd Sam yn teimlo ar ddiwedd y ras.



Beth ydy neges y stori hon?

Darllenwch y testun sydd yn y bocs isod.

Mynd i'r Mandir

Mae Mam-gu a Saabira yn mynd i'r *Mandir* i addoli Krishna.

Wedi cyrraedd y *Mandir*, roedd rhaid i'r ddwy dynnu eu hesgidiau a golchi eu dwylo a'u traed yn lân. Roedd y *Mandir* wedi ei addurno'n lliwgar, ac roedd y lle'n llawn pobl yn taro drymiau a symbalau.

Roedd y *murti*, sef delw o Krishna, wedi ei olchi â llaeth ac wedi ei wisgo mewn gwisg oren llachar, sgleiniog. O amgylch ei wddf roedd torch o flodau hardd.

Yna, dechreuodd cloch ganu, roedd hi'n bryd canu emynau a rhannu gweddïau. Cafodd lamp arbennig a phum golau arni ei chwifio o flaen y *murti*.

Ar hambwrdd arian sgleiniog roedd canhwyllau bach yn gwenu, ac roedd pawb yn tynnu eu dwylo dros y golau. Yna, roedden nhw'n rhoi eu dwylo ar eu llygaid i ddangos bod Duw yn garedig, ac i ddangos eu cariad at Krishna.

Cyn gadael y *Mandir*, cawson nhw ffrwythau blasus a melysion i'w bwyta.

Beryl Bowen



1. Pa liw oedd gwisg y *murti* o Krishna?

2. Bachgen neu ferch oedd Saabira?

3. Pa offerynnau cerdd oedd yn y *Mandir*?

Ticiwch 2.

- | | |
|-----------|--------------------------|
| trionglau | ☐ |
| drymiau | ☐ |
| trwmpedi | ☐ |
| symbalau | ☐ |





4. Rhewch y digwyddiadau hyn yn y drefn gywir o 1 – 5.
Mae un wedi ei wneud yn barod i chi.

canu emynau

☐

Mam-gu a Saabira yn golchi eu traed

☐

bwyta melysion

☐

pobl yn rhoi eu dwylo ar eu llygaid

☐

cyrhaedd y *Mandir*

☐ 1


5. Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
1. Roedden nhw'n defnyddio llaeth i olchi'r murti.		
2. Llosgodd y canhwylau eu dwylo.		
3. Roedd mwclis o amgylch gwddf Krishna.		
4. Roedd yr hambwrdd yn sgleinio.		



6. Mae rhai geiriau mewn print *italaidd*. Copïwch **un** ohonynt yma.



7. Darllenwch y frawddeg yma eto.

Roedd y *murti*, sef delw o Krishna, wedi ei olchi â llaeth ac wedi ei wisgo mewn gwisg oren llachar, sgleiniog.

Beth yw ystyr y gair 'delw'?

Ticiwch **un**

dillad ☐

duw ☐

cerflun ☐


darlun ☐



8. Darllenwch y paragraff yma eto.

Ar hambwrdd arian sgleiniog roedd canhwyllau bach yn gwenu, ac roedd pawb yn tynnu eu dwylo dros y golau. Yna, roedden nhw'n rhoi eu dwylo ar eu llygaid i ddangos bod Duw yn garedig, ac i ddangos eu cariad at Krishna.

Dewiswch a chopïwch 3 ansoddair (geiriau disgrifio) yma.



9. Tynnwch 4 llinell i gysylltu'r geiriau sy'n golygu'r un peth. Mae un wedi ei wneud i chi.

melysion

mam-gu

sgleiniog

hardd

chwifio


disglair

losin

ysgwyd

nain

tlws









Yn y testun, mae Saabira yn mynd i le arbennig. Yn eich grŵp, siaradwch am rywle arbennig rydych chi wedi bod iddo. Disgrifiwch y lle'n ofalus.

Pa aelod o'r grŵp sydd wedi bod i'r lle mwyaf diddorol? Pam rydych chi'n dweud hyn?



Hefyd yn y gyfres...



Am fwy o fanylion, ewch i:

<http://www.canolfanpeniarth.org/ditectif-geiriau>

neu'r gweithgareddau:

<http://adnoddau.canolfanpeniarth.org/ditectif-geiriau/>.

